Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd

# Cynllun Hyfforddiant

O dan Adran 67 deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mae gan y Cyngor Cymuned ddyletswydd i ystyried hyfforddiant ar gyfer Cynghorwyr a staff ac i gyhoeddi'r cynlluniau hyfforddiant hyn.

Pwrpas y cynllun hyfforddi yw sicrhau bod Cynghorwyr a'r Clerc yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd ei angen arnynt er mwyn iddynt hwy a'r Cyngor yn ei gyfanrwydd i weithredu'n effeithiol. Nid oes angen i bob Cynghorydd a Chlerc fod wedi derbyn yr un hyfforddiant a datblygu 'run arbenigedd.

Mae Cyngor Cymuned Llannerchymedd wedi cytuno mai'r meysydd craidd derbyniol i feddu ar sgiliau a dealltwriaeth digonol yw:

- Modiwl ar gyfer Cynghorwyr newydd;
- Y Cod Ymddygiad
- Rheolaeth ariannol a llywodraethu.

Bydd pob Cynghorydd yn cael cynnig y cyfle i fynychu cyfleoedd hyfforddi a datblygu perthnasol. Mae Un Llais Cymru yn darparu gwybodaeth yn fisol o'r cyrsiau achrededig (accredited) ac mae'r rhestr cyrsiau yn cael ei diweddaru a'i rannu gyda'r aelodau yn rheoliadd. Yn gyfredol, mae'r cyrsiau yn cael eu cynnig ar lein yn unig drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ychwanegol mae pob aelod yn cael gwybodaeth ar sut i gael mynediad at ddogfennau perthnasol e.e. Cyrsiau perthnasol neu dogfennau fel 'Canllaw Cynghorydd Da - Llywodraeth Cymru' ar wahanol wefannau perthnsol. Bydd y Clerc yn sicrhau bod pob aelod yn arwyddo eu bod wedi derbyn a deall y wybodaeth hon.

Bydd y Cyngor Cymuned yn neilltuo cyllid yn flynyddol er mwyn hyrwyddo a chefnogi mynediad ar gyfer yr aelodau a'r Clerc.

Bydd y Clerc yn gyfrifol am:-

- gylchredeg unrhyw wybodaeth am gyrsiau addas ac yn awgrymu cyrsiau perthnasol i aelodau'r Cyngor
- gadw cofnod o'r cyrsiau a fynychwyd yn flynyddol – *Atodiad A*
- mapio anghenion/ceisiadau unigol yn rheoliadd – *Atodiad B*

**ELFENNAU HYFFORDDIANT GORFODOL :**

- Anogaeth a chefnogaeth rheolaidd i bob Cynghorydd fynychu cyrsiau achrededig Un Llais Cymru
- Rholi ystyriaeth briodol i fynychu unrhyw hyfforddiant o ffynonellau eraill amgen i Unllais a fydd o fantais i waith y Cyngor yn ei gyfanrwydd.
- Cynghorwyr newydd i fynychu  Modiwl 1 – Y Cyngor a Modiwl 2 Y Cynghorydd Un Llais Cymru o fewn blwyddyn i'w hethol
- Pob Cynghorydd i fynychu Modiwl 9 Cod Ymddygiad Un Llais Cymru
- Cadeirydd newydd y Cyngor i fynychu Modiwl 10 Sgiliau Cadeirio Un Llais Cymru o fewn 6 mis i'w hethol
- Darparu cefnogaeth ariannol ac ymarferol  briodol i'r Clerc ddatblygu Hyfforddiant Parhaus Proffesiynol e.e mynychu cyfarfodydd allanol, cyrsiau hyfforddiant yn ôl y galw

Cymeradwy-wyd a mabwysiadwyd yn unfrydol gan Cyngor Cymuned Llannerchymedd – Ebrill 2023

*Adolygiadau*

*06.04.2023* *fersiwn 0.1*

**ATODIAD A**

# COFRESTR HYFFORDDIANT 2023; 2024;2025

| ENW | HYFFORDDIANT | DYDDIAD |
|---|---|---|
| Sydna Roberts Clerc | Modiwl 6 - Cyllid Llywodraeth Leol Un Llais Cymru (Sylfaenol) | 6 Chwefror 2023 |
| Dafydd Williams Cadeirydd | Modiwl 10 - Sgiliau Cadeirio | 22 Mawrth 2023 |
| Sydna Roberts Clerc | Cod Ymddygiad | 14 Hydref 2024 |
| Dafydd Williams – Cyng. | Cynllunio - | |
| Emma Young – Cyng.<br>Ann Roberts -Cyng.<br>Sydna Roberts - Clerc | Cynllunio – How can you build more houses when…. | 17 Medi 2025 |
| Holl Aelodau | Modiwl 9 - Cod Ymddygiad Unllais Cymru | **9 Rhagfyr 2025** |

**MAPIO GOFYNION HYFFORDDIANT UNIGOL** **ATODIAD B**

| ENW | HYFFORDDIANT |
|---|---|
| **Arfon Jones** | **Cod Ymddygiad** |
| **John O Jones** | **Fel uchod** |
| **Robin Jones** | **Fel uchod** |
| **John Jukes** | **Fel uchod** |
| **Llinos Medi** | |
| **Elfryn Owen** | **Fel uchod** |
| **Dafydd Parry** | **Fel uchod** |
| **Ann Roberts** | **Fel uchod** |
| **Rachael Young** | **Fel uchod** |
| **Dafydd Williams** | **Fel uchod** |
| **Gwyn Williams** | **Fel uchod** |
| **Ifan Williams** | **Fel uchod** |
| **Emma Young** | **Fel uchod**<br>**Modiwl 10 – Sgiliau Cadeirio (erbyn Chwef 2026)** |
| **Sydna Roberts** | **Fel uchod**<br><br>**Cyllid** |